Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

Lleoliad Allanol

Dyddiad: Dydd Mawrth, 18 Hydref 2022

Amser: 09.01 - 09.19

Preifat

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd) Lesley Griffiths AS Siân Gwenllian AS Darren Millar AS
Staff y Pwyllgor:	Graeme Francis (Clerc) Yan Thomas (Dirprwy Glerc)
Eraill yn bresennol	David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Helen Carey, Llywodraeth Cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds.

2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

Dydd Mawrth

- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Ymateb Llywodraeth Cymru i ddatganiad y Canghellor ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (30 munud)
- ~~Rheoliadau'r Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022 (15 munud)~~ *Tynnwyd yn ôl*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.40pm.

Dydd Mercher

Gwnaeth y Trefnydd gais i'r Pwyllgor Busnes gytuno i drefnu dadl ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Prisiau Ynni ddydd Mercher 19 Hydref, gan atal Rheolau Sefydlog dros dro i ganiatáu i'r ddadl gael ei chynnal. Derbyniwyd y cais gan fod yr amserlen yn symud yn gynt ar gyfer pasio'r Bil yn San Steffan, gyda'r Bil wedi'i gyflwyno ar 12 Hydref a dyddiad arfaethedig ar gyfer Cydsyniad Brenhinol ar 25 Hydref. Oherwydd diffyg amser, cytunodd y Pwyllgor Busnes i beidio â chyfeirio'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol i Bwyllgor ar gyfer gwaith craffu.

Yn sgil hynny, mae'r eitemau canlynol wedi'u hychwanegu at agenda dydd Mercher:

- Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro (5 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Prisiau Ynni (30 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 8.25pm.

3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

Dydd Mercher 26 Hydref –

- Cynnig i Ethol Cadeirydd Dros Dro yn y Cyfarfodydd Llawn (5 munud)

Dydd Mercher 16 Tachwedd 2022 –

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Cysylltedd digidol – band eang (60 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Pwysau costau byw (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

Dydd Mercher 16 Tachwedd 2022 –

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Cysylltedd digidol – band eang (60 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Pwysau costau byw (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

3.4 Dadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau – dethol cynnig i'w drafod

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu'r cynnig canlynol i'w drafod ddydd Mercher 26 Hydref 2022:

NNDM8108 Sioned Williams

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil defnyddio budd-daliadau.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) sicrhau bod mwy o arian yn dod i bocedi pobl Cymru drwy gynyddu'r defnydd o daliadau cymorth Cymreig a thaliadau cymorth awdurdodau lleol;

b) gosod dyletswydd ar bob sefydliad sector cyhoeddus i hyrwyddo i'r eithaf y defnydd o fudd-daliadau Cymreig a budd-daliadau awdurdodau lleol;

c) ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus symleiddio a sicrhau cysondeb drwy Gymru o ran y dull o ymgeisio am fudd-daliadau o'r fath.

4 Deddfwriaeth

4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Protocol Gogledd Iwerddon.

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cais am estyniad i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Cynnig ar Fil Protocol Gogledd Iwerddon. Yn seiliedig ar drefnu dadl ar y Cynnig ar gyfer 8 Tachwedd yn sgil yr amserlen ar gyfer y Bil yn San Steffan, daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad nad yw'n bosibl ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar hyn o bryd. Dywedodd y Trefnydd, os bydd yr amserlen seneddol yn newid, byddai'r Llywodraeth yn fodlon ailedrych ar yr amserlen ar gyfer craffu ar y Cynnig.

5 Busnes y Senedd

5.1 Nodyn ar y Cadeirydd Dros Dro a rolau eraill sydd ar gael i gadeirio trafodion y Cyfarfod Llawn

Nododd y Pwyllgor Busnes y papur ar y gwahanol rolau sydd ar gael i gadeirio trafodion, a chytunodd i gyflwyno cynnig bod Paul Davies AS yn cael ei ethol yn Gadeirydd Dros Dro Cyfarfodydd Llawn o dan Reol Sefydlog 6.23A, i'w ystyried ar 26 Hydref.

6 Unrhyw faterion eraill

Nododd y Rheolwyr Busnes y trefniadau ar gyfer briff technegol ar waith presennol y Pwyllgor Busnes ar argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, a fydd yn cael ei gynnal ar 19 Hydref.